# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Penny Matthews | Adran Etholiadol: | Llansamlet |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliais gymorthfeydd rheolaidd gyda'm cydweithwyr ward yng Nghanolfannau Cymunedol y Trallwn a Gellifedw.

Roeddwn yn diweddaru'r dudalen Facebook a greais, o'r enw 'Llansamlet Labour News', yn rheolaidd i roi'r newyddion diweddaraf i'r ward am faterion o ddiddordeb, h.y. cau ffyrdd, gwaith ffyrdd, gwaith stryd etc.
Euthum i gyfarfodydd PACT yn y Trallwn a Gellifedw.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

*Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.*

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Fforwm Cynghorau Cymuned/Tref | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Y Cyngor | 14 | / | 18 | 78 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Datblygu | 10 | / | 11 | 91 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar yr Economi a Buddsoddi | 3 | / | 4 | 75 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | 16 | / | 16 | 100 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu Statudol | 7 | / | 7 | 100 | % |
| Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol | 9 | / | 9 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **62** | **/** | **68** | 91 | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Roeddwn yn rheolaidd yn mynd i gyfarfodydd llywodraethwyr yn Ysgolion y Trallwn a Gellifedw.
Roeddwn bob amser yn mynd i gyfarfodydd ward.
Roeddwn bob amser yn ymdrin â materion wrth iddynt godi, gan ymweld â phreswylwyr lleol yn eu cartrefi'n aml neu ymdrin â materion brys dros y ffôn.
Gweithiais yn agos gyda'r heddlu ynghylch materion a godwyd yng nghyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) a materion cymunedol eraill.
Rwyf wedi ymdrin ag achosion o natur bersonol a chefnogi preswylwyr gydag amrywiaeth o faterion o'r gwasanaeth bws lleol i gadw'r amgylchedd yn lân ac yn glir.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Mae'n fraint gennyf fod yn Gadeirydd Trwyddedu Dinas a Sir Abertawe ac yn Gadeirydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu.
Ar hyn o bryd, rwy'n cefnogi preswylwyr sy'n gaeth i gadair olwyn ac mae angen arnynt i balmentydd gael eu gostwng.
Gweithiais yn agos gyda swyddogion ar y cynnig "llwybrau diogel" a oedd mor llwyddiannus yn ardal y Trallwn.
Trefnais gyfarfod i sefydlu grŵp Cyfeillion Parc Briallu a byddaf yn parhau i'w gefnogi trwy fod yn aelod o'r pwyllgor.
Rwy'n cefnogi Ymddiriedolaeth Gymunedol y Glais ac yn mynd i'w chyfarfodydd.
Rwy'n cynrychioli'r cyngor ar Fwrdd Canolfan Gymunedol y Trallwn.
Rwyf hefyd yn cynrychioli'r cyngor ar Fwrdd Canolfan Gymunedol y Glais sydd newydd gael ei sefydlu.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Ymgymerais â'r hyfforddiant canlynol:

25/02/2016 - Diogelu Pobl Ddiamddiffyn.

Roedd fy rôl fel cadeirydd yn amrywiol, gan ymwneud â phob agwedd ar drwyddedu. Roedd hyn yn cynnwys trwyddedu mangreoedd a thacsis, Tai Amlfeddiannaeth (HMO) a masnachu ar y stryd. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, euthum i Stryd y Gwynt am 2am yn ddiweddar gyda swyddogion y cyngor a'r heddlu i ymchwilio i bryderon a godwyd gan yrwyr tacsi lleol.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Dros y 3 blynedd diwethaf, rwyf wedi trefnu 'Parti yn y Parc' bob blwyddyn ym Mharc Briallu. Cyd-drafodais ddefnyddio rhywfaint o offer a gweithio gyda Chymunedau'n Gyntaf ac, am y drydedd flwyddyn, noddwyd y digwyddiad gan Asda. Darparwyd yr offer ffair gan y teulu Studt lleol. Eleni, roeddem yn ffodus y cynhaliodd sgwadron o'r Cadlanciau Awyr arddangosfa benigamp gyda'i hofferynnau cerdd. Roedd yn ddigwyddiad cymunedol campus a ddaeth â phob rhan o'r gymuned at ei gilydd.
Hefyd, cefnogais Ddiwrnod Hwyl Cymdeithas Gellifedw ym Mharc Heol Las.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £22,000 - Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 10.05.2016 |